| HYSBYSIAD O GYFLWYNO CYNLLUN DATBLYGU LLEOL<br>i LYWODRAETH CYMRU<br>a<br>HYSBYSEBU NEWIDIADAU Â FFOCWS ARFAETHEDIG |
|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro 2 (2017–2033)** |
| Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 22) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 |

Mae **Cyngor Sir Penfro** wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y **Cynllun Datblygu Lleol (LDP2)** uchod i Lywodraeth Cymru er mwyn eu harchwilio. Os, a phryd, y caiff y cynigion arfaethedig hyn eu mabwysiadu, byddant yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol (2013-2021) ac yn ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar gyfer ardal Sir Benfro, ac eithrio'r Parc Cenedlaethol.

Mae Cyngor Sir Penfro wedi ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas ag **Adneuo Cynllun Datblygu Lleol 2** a bellach yn cynnig '**newidiadau â ffocws'** i sicrhau bod y cynllun yn gadarn. Dim ond y newidiadau hyn fydd yn destun **ymgynghoriad cyhoeddus** ffurfiol am **chwech wythnos** rhwng **dydd Llun 4 Awst** a **hanner nos dydd Llun 15 Medi 2025**.

Mae **Dogfennau Cyflwyno** CDLl2 yn cynnwys **Adneuo Cynllun Datblygu Lleol 2**, yr **Adroddiad Asesu Cynaliadwyedd** (sy'n ymgorffori'r Adroddiad Amgylcheddol), y **Cytundeb Cyflawni** (gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau), yr **Adroddiad Ymgynghori**, copïau o'r **sylwadau** a dogfennau ategol eraill.

Mae amserlen y **newidiadau â ffocws** a'r **dogfennau cyflwyno** ar gael yma https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/newidiadau-canolbwynteidig ac https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cyflwyno

Copi papur o'r dogfennau ymgynghori ar gael yn Neuadd y Sir, Hwlffordd, ac mewn llyfrgelloedd lleol yn ystod oriau agor arferol.

- Os hoffech wneud sylwadau ar y **newidiadau â ffocws** gallwch wneud hynny gan ddefnyddio'r **ffurflen sylwadau** sydd ar gael ar-lein http://sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/newidiadau-canolbwynteidig. Dylid defnyddio'r ffurflen hon i wneud sylwadau lle bynnag y bo modd.

- Anfonwch eich ffurflenni sylwadau drwy e-bost at ldp@pembrokeshire.gov.uk neu drwy'r post i'r Tîm Cynlluniau Datblygu, Neuadd y Sir, Ffordd Freeman, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP erbyn **hanner nos 15 Medi 2025.**

Dylai'r sylwadau ar y cam hwn ymwneud â'r **newidiadau â ffocws** yn unig a dylent fynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad clir. Ni ddylai'r sylwadau gynnig newidiadau pellach.

**SYLWER:** Nid oes angen ailgyflwyno unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adneuo.

Bydd yr holl sylwadau a wneir ynglŷn â'r cynllun ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Bydd **arolygydd cynllunio** annibynnol yn cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal **archwiliad cyhoeddus** i benderfynu a yw'r cynllun yn gadarn.

Dim ond y rhai sy'n gwneud sylwadau priodol (h.y. yn unol â hysbysiadau cynharach) i geisio newid Cynllun Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol, sydd â'r hawl i ymddangos gerbron yr arolygydd a chael eu clywed ganddo yn yr archwiliad (adran 64(6) o Ddeddf 2004), ynghyd â chynrychiolwyr y newidiadau â ffocws sy'n dymuno ymddangos yn yr archwiliad.

Rhoddir rhybudd o leiaf chwe wythnos cyn agor yr archwiliad. Bydd fformat y gwrandawiad yn cael ei bennu gan yr arolygydd cynllunio penodedig.

Harriet Lavender
Cyfarwyddwr Cynllunio